# Atodlen 4

## Newidiadau ac ychwanegiadau at Rwymedigaethau'r Grant

[Noder: Bydd yr Atodlen hon yn cael ei diweddaru i gynnwys newidiadau a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr ymarferiad cystadleuol, bid y Derbynnydd, newidiadau a wnaethpwyd ar ôl dyfarnu grant]

Mae'r Cytundeb Grant wedi'i newid i adlewyrchu'r newidiadau a nodwyd.

**Atebion y Derbynnydd i gwestiynau yn y cais**

(Noder: Yn y Cyfarwyddiadau ar gyfer Bidio, rhoddwyd y cyfarwyddiadau canlynol i ymgeiswyr: Os bydd unrhyw newidiadau sylweddol yn eich amgylchiadau yn ystod y broses ymgeisio neu ar ôl dyfarnu grant sy'n effeithio ar yr wybodaeth a rodiwyd gennych i ni (megis newid i aelodaeth consortiwm neu isgontractwyr neu unrhyw newid a all effeithio ar eich gallu i gyflawni) dylech hysbysu'r Awdurdod ar unwaith.)

**Cyflenwr sy'n Ymateb: Cymorth i Ddioddefwyr**

**1 Manylion y Sefydliad**

1.1 Nodyn i ymgeiswyr (ar sut yr ydym yn cwblhau'r Cais am Wybodaeth (RFI)) (Gwybodaeth heb ei phwysoli - gwybodaeth yn unig). Os cynigir dull prif gontractwr, dylai'r holl wybodaeth y gofynnir amdani gael ei rhoi ar gyfer y prif gontractwr, a hwn fydd yr Ymgeisydd. Os ydych chi'n bidio fel consortiwm, rhaid nodi Ymgeisydd Arweiniol a dylid cynnwys ymateb cyfansawdd ar gyfer aelodau'r consortiwm, gan ddatgan yn glir pa sefydliad/au fydd yn gyfrifol am gyflenwi unrhyw elfennau penodol. Gyda'i gilydd aelodau cyfansoddol y consortiwm fydd yr Ymgeisydd. Dylech gadarnhau eich bod yn deall y nodyn hwn.

**Ateb:** Ydw

1.2 (Heb ei bwysoli - gwybodaeth yn unig) Gall unrhyw gwestiynau heb eu hateb neu sydd wedi'u hateb yn rhannol olygu y gall yr ymateb cyfan gael ei wrthod. Dylech gadarnhau eich bod yn deall y nodyn hwn.

**Ateb:** Ydw

1.3 (Heb ei bwysoli - gwybodaeth yn unig) Enw'r sefydliad a fydd yn gweithredu fel yr Ymgeisydd neu'r Ymgeisydd Arweiniol

**Ateb:** Cymorth i Ddioddefwyr

1.4 (Heb ei bwysoli - gwybodaeth yn unig) Enw a manylion cyswllt prif gyswllt yr Ymgeisydd

**Ateb:**

1.5 (Heb ei bwysoli - er gwybodaeth yn unig) Mae'r Awdurdod yn dymuno ymrwymo i gytundeb ag un endid (fel un sefydliad, prif gontractwr neu Ymgeisydd Arweiniol). Ar ôl ystyried hyn, a ydych chi'n bidio fel: (un sefydliad, prif gontractwr, consortiwm, arall?)

**Ateb:** prif gontractwr

1.6 (Heb ei bwysoli - derbyniol/annerbyniol) Os ydych chi wedi dewis 'Arall' yn 1.5 uchod, rhowch fanylion.

**Ateb:** Amherthnasol

1.7 (Heb ei bwysoli - gwybodaeth yn unig) Rhowch fanylion am brif feysydd gweithgarwch busnes yr Ymgeisydd. Dylech gyfyngu eich ateb i 50 o eiriau.

**Ateb:** Mae Cymorth i Ddioddefwyr yn rhedeg y Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau presennol fel rhan o bortffolio o wasanaethau sy'n darparu cymorth emosiynol ac ymarferol yn ddi-dâl i ddioddefwyr a thystion troseddau ledled Cymru a Lloegr. Rydym yn darparu gwasanaethau yn lleol, yn bennaf drwy 6698 o wirfoddolwyr, sy'n helpu dioddefwyr a thystion i oresgyn effeithiau niweidiol troseddau.

1.8 (Heb ei bwysoli - gwybodaeth yn unig) A yw'r Ymgeisydd (neu'r Ymgeisydd Arweiniol yn): - Elusen gofrestredig – yn Gwmni – arall

**Ateb:** elusen
Sylwadau: Mae Cymorth i Ddioddefwyr yn Elusen Gofrestredig (rhif 298028) ac yn Gwmni Cyfyngedig (2158780).

1.9 (Heb ei bwysoli - gwybodaeth yn unig) Rhowch gyfeiriad swyddfa Gofrestredig yr Ymgeisydd (os yw'n gwmni) – Rhif cofrestredig – Dyddiad Cofrestru – Enw a rhif cofrestru unrhyw riant gwmni neu ddatganiad sy'n datgan nad oes gennych chi riant gwmni

**Ateb:** Swyddfa Gofrestredig: Hallam House, Hallam Street, Llundain, W1W 6JL.
Rhif Elusen: 298028
Rhif y Cwmni: 2158780
Dyddiad Cofrestru'r rhif elusen am y tro cyntaf: 17 Tachwedd 1987
Dyddiad Cofrestru rhif y cwmni: 28 Awst 1987
Nid oes gan Gymorth i Ddioddefwyr riant gwmni.

1.10 (Heb ei bwysoli - derbyniol/annerbyniol) A yw unrhyw rai o Gyfarwyddwyr yr Ymgeisydd neu unrhyw unigolyn arall sydd â phwerau cynrychiolaeth, penderfynu neu reolaeth dros yr Ymgeisydd wedi cael eu collfarnu o unrhyw rai o'r troseddau yn yr ATODIAD Troseddau Atodiad 1?

**Ateb:** Nac oes

## 2 Iechyd a Diogelwch

2.1 (Heb ei bwysoli - er gwybodaeth yn unig) A oes gan yr Ymgeisydd: - bolisi ar Iechyd a Diogelwch ysgrifenedig yn y gwaith? a – system Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith h.y. prosesau a gweithdrefnau i sicrhau bod y mater yn cael ei reoli'n briodol a bod gofynion cyfreithiol yn cael eu cyflawni?

**Ateb:** Oes

2.2 (Heb ei bwysoli - derbyniol/annerbyniol) Os ydych chi wedi ateb 'Nac oes' i'r naill o'r 2 gwestiwn blaenorol, dywedwch pam.

**Ateb:** Dim Ateb

## 3. Cydraddoldeb

3.1 (Heb ei bwysoli - er gwybodaeth yn unig) Yn y tair blynedd diwethaf a fu unrhyw ddyfarniad o wahaniaethu anghyfreithlon yn erbyn yr Ymgeisydd gan unrhyw lys neu dribiwnlys neu a fu eich sefydliad yn destun ymchwiliad gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol?

**Ateb:** Naddo

3.2 (Heb ei bwysoli - derbyniol/annerbyniol) Os yw'r ateb i gwestiwn 3.1 yn 'Do', pa gamau a gymerodd y sefydliad o ganlyniad i'r dyfarniad neu ymchwiliad hwnnw?

**Ateb:** Amherthnasol

## 4. Galluogrwydd

4.1 (Pwysoliad: 46%. Rhwystr os yn llai na 'derbyniol') Rhowch fanylion am unrhyw grantiau / contractau (hyd at gyfanswm o dri) yn y pedair blynedd diwethaf a ddyfarnwyd i chi i gynorthwyo unigolion mewn profedigaeth neu i ddarparu gwasanaethau tebyg i'r rhai a amlinellwyd yn y Ddogfen Ddisgrifiadol. Dylech gynnwys:- enw'r sefydliad client, dyddiadau cychwyn a gorffen, gwerth y grant/contract i'ch sefydliad, rôl eich sefydliad, disgrifiad o'r gwasanaethau a ddarparwyd ac a oedd hyn yn cynnwys cymorth i unigolion mewn profedigaeth o ganlyniad i droseddau neu oedolion neu blant agored i niwed, gwelliannau ac arbedion, disgrifiad o sut y cynhaliwyd lefelau'r gwasanaeth, disgrifiad o sut yr oedd y gwasanaethau a ddarparwyd wedi arwain at wella'n uniongyrchol y canlyniadau a gyflawnwyd. Os ydych chi'n bidio fel consortiwm nodwch enw'r sefydliad a oedd yn darparu pob un o'r gwasanaethau. Os ydych chi'n bidio fel Prif Gontractwr, rhaid i o leiaf un enghraifft gyfeirio at y Prif Gontractwr - gall y lleill gyfeirio at is-gontractwr a fydd yn darparu gwasanaethau tebyg ar y grant hwn. Dylech gyfyngu eich ateb i 800 gair.

**Ateb:**

4.2 (Heb ei bwysoli - er gwybodaeth yn unig. Defnyddir gwybodaeth i gadarnhau'r ateb i 4.1) Hoffai'r Awdurdod gael geirdaon gan y sefydliadau sydd wedi cael y gwasanaethau a amlinellwyd yn yr ateb uchod. Mae'r ffurflen geirdaon wedi'i hamgáu - ATODIAD Atodiad 2 Templed Geirdaon. Anfonwch hwn at eich canolwyr a dylai ef ei gwblhau a'i ddychwelyd yn uniongyrchol at yr Awdurdod yn victimservicescommissioning@justice.gsi.gov.uk i gyrraedd yn ddim hwyrach na 28 Mawrth 2014. Ni fydd y geirdaon eu hunain yn cael eu sgorio ond cânt eu defnyddio i gadarnhau'r wybodaeth a roddwyd mewn ymateb i'r cwestiwn uchod. Nodwch enw'r aelod o'r consortiwm neu'r is-gontractwr a oedd yn darparu'r gwasanaethau hyn. Dylech gadarnhau eich bod wedi gofyn i dri chanolwr ymateb drwy ddefnyddio'r templed.

**Ateb:** Do

4.3 (Pwysoliad: 20% ) Rhowch fanylion am unrhyw enghreifftiau yn y pedair blynedd diwethaf (hyd at uchafswm o ddwy) lle'r ydych chi wedi rheoli'r pontio i ac wedi gweithredu gwasanaethau tebyg i'r rhai sydd eu hangen ar yr Awdurdod. Rhowch enw'r sefydliad cwsmer, prif fanylion cyswllt y cwsmer, disgrifiad o'r gwasanaethau pontio a ddarparwyd gan eich sefydliad, maint a chwmpas y prosiect a'r gweithgareddau pontio, gwerth y grant/contract i'ch sefydliad, gweithgareddau rheoli TUPE, a sut y trefnwyd i drosglwyddo staff er mwyn amharu cyn lleied â phosibl, y dull rheoli prosiect a fabwysiadwyd. Mae'r Adran yn cadw'r hawl i gysylltu â chleientiaid i ofyn am eirda er mwyn cadarnhau'r wybodaeth a roddwyd. Os ydych yn bidio fel consortiwm nodwch enw'r sefydliad a oedd yn darparu'r gwasanaethau. Os ydych yn bidio fel Prif Gontractwr rhaid bod o leiaf un enghraifft yn gysylltiedig â'r Prif Gontractwr - gall y lleill gyfeirio at is-gontractwr a fydd yn darparu gwasanaethau tebyg ar y grant.

**Ateb:**

4.4 (Pwysoliad: 34%. Rhwystr os yn llai na 'derbyniol') Rhowch fanylion am brofiad yr Ymgeisydd o ddatblygu neu gomisiynu neu reoli, trefniadau rheoli achosion sy'n gallu cymryd a chadw data personol sensitif a chydymffurfio â phrotocolau Diogelwch Gwybodaeth. Nodwch pa Lefel Effaith Diogelwch oedd yn weithredol. Os ydych chi wedi datblygu neu reoli protocolau rhannu data â'r heddlu neu awdurdodau statudol eraill, rhowch ddisgrifiad ohonynt. Os ydych chi'n bidio fel consortiwm, rhowch enw'r sefydliad y mae'r profiad hwn yn cyfeirio ato.

**Ateb:**

4.5 (Heb ei bwysoli. Er gwybodaeth yn unig) Noder: gall yr Awdurdod gynnal asesiad ariannol o'r ymgeisydd llwyddiannus cyn dyfarnu grant. Gall yr Awdurdod ofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus roi Gwarant Rhiant Gwmni a / neu Gweithred Berfformiad (gweler y Cyfarwyddiadau ar gyfer Bidio). Dylech gadarnhau y byddwch yn ateb y gofyniad hwn os a phryd fydd yr Awdurdod yn gofyn i chi wneud hynny.

**Ateb:** Byddwn

4.6 (Heb ei bwysoli - derbyniol/annerbyniol) Os mai 'Na fyddwn' oedd eich ateb i 4.5, rhowch fanylion.

**Ateb:** Dim Ateb

## 5. Strwythur Cyflenwi

5.1 (Pwysoliad: 53%) Cwblhewch a llwythwch i fyny ATODIAD Atodiad 3
Atodlen o Isgontractwyr neu Aelodau Consortiwm (oni bai eich bod yn bidio fel un sefydliad). Disgrifiwch y strwythur cyflenwi yr ydych yn ei ddefnyddio'n llwyddiannus i ddarparu'r Gwasanaethau, gan gynnwys pob un o'r gwasanaethau cymorth, ledled Cymru a Lloegr, sy'n cynnwys siaradwyr Cymraeg os oes angen. Rhowch fanylion am y cynnydd diweddaraf ar negodiadau a lefel bresennol yr ymrwymiad gan unrhyw isgontractwyr neu aelodau consortiwm. Rhowch fanylion am y cysylltiadau presennol ac arfaethedig rhwng y sefydliadau gan gynnwys cysylltiadau contract a fwriedir neu gysylltiadau eraill a'r llinellau adrodd a ddefnyddir. Dangoswch os yw'r cysylltiadau hyn yn debygol o newid yn ystod cyfnod y grant. Hefyd, nodwch eich profiad o reoli strwythur tebyg yn llwyddiannus. Amgaewch ddatganiad byr ar ffurf llythyr llofnodedig gan bob is-gontractwr / aelod consortiwm sy'n cadarnhau eu dealltwriaeth o'u rôl, gwerth y grant iddynt, y sefyllfa bresennol o ran negodiadau a'r cysylltiadau yn y dyfodol. Dylech gyfyngu eich ateb i 700 gair.

**Ateb:** Bydd Cymorth i Ddioddefwyr (VS) yn gweithredu fel y prif gontractwr ac fel sefydliad cyflenwi gwasanaeth i ddarparu cymorth i rai mewn profedigaeth o ganlyniad i laddiad. Bydd ein rôl yn cynnwys; darparu asesiadau o angen cychwynnol a pharhaus; darparu cymorth ymarferol ac emosiynol ar unwaith a pharhaus; atgyfeirio defnyddwyr gwasanaeth at wasanaethau arbenigol a ddarperir naill ai'n uniongyrchol gan staff eraill a gwirfoddolwyr VS; gan wasanaethau a gomisiynwyd gan gynnwys grwpiau Cymorth gan Gymheiriaid; cyfeirio at wasanaethau statudol (fel rhaglenni caethiwed i gyffuriau ac alcohol y GIG); a rheoli'r grant ac adrodd i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder (MoJ). Byddwn yn rheoli rhwydwaith o wasanaethau a gomisiynwyd i sicrhau bod gwasanaeth wedi'i deilwra o safon uchel yn cael ei ddarparu i bob defnyddiwr gwasanaeth.

Rydym wedi ymgysylltu'n eang â'r mudiadau o fewn ein rhwydwaith cyfredol ac wedi cytuno ar eu cysylltiad â'r gwasanaeth arfaethedig, fel y gwelir yn y Llythyrau o Fwriad amgaeedig. Rydym wedi cytuno i wneud ein perthynas yn fwy ffurfiol fyth ar ôl y dyfarniad drwy lunio cytundebau is-gontract, ac rydym wedi gwneud yn yr un modd â darparwyr gwasanaeth newydd.

Nid ydym yn rhagweld y bydd ein perthynas â gwasanaethau a gomisiynwyd yn newid yn ystod cyfnod y grant oni bai bod angen am hynny, er enghraifft, mewn achosion o berfformiad gwael. Fodd bynnag, byddwn yn cynorthwyo ein darparwyr i ddatrys unrhyw broblemau ac yn cydweithio'n glos â hwy cyn gwneud penderfyniad i derfynu perthynas i gyflenwi gwasanaeth.

Byddwn yn gweithio â'r Awdurdod i gadarnhau'r gofynion adrodd newydd (gan gynnwys adroddiadau perfformiad chwarterol fel yr amlinellwyd yn y Ddogfen Ddisgrifiadol) a byddwn yn sicrhau bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr is-gontractau newydd.

Mae gan VS a'i isgontractwyr drefn gwyno drylwyr ac mae gofyniad ar wasanaethau a gomisiynwyd i gyflenwi unrhyw wybodaeth sydd ei hangen er mwyn ymchwilio i gwynion. Yn achos trefn gwyno ehangach VS, mae cofrestr o gwynion yn cael ei goruchwylio gan y bwrdd ymddiriedolwyr.

Amgaeir llythyr llofnodedig gan bob gwasanaeth a gomisiynwyd sy'n cadarnhau eu dealltwriaeth a'u hymrwymiad i rôl yn narpariaeth y gwasanaeth.

Noder: yn dilyn ymateb MoJ i gwestiwn yn gofyn am eglurhad, ysgrifennodd VS at yr holl wasanaethau a gomisiynwyd sydd wedi'u cynnwys yn y bid hwn yn eu rhyddhau o unrhyw ofyniad cyfyngedig yr oeddent wedi ymrwymo iddo â ni yn flaenorol.

5.2 (Pwysoli: 9%) Eglurwch pa drefniadau wrth gefn y byddwch yn eu rhoi ar waith i leihau'r perygl na fydd mudiad yn ymgysylltu'n llawn cyn neu ar ôl dyfarnu grant. Dylech hefyd gynnwys trefniadau ar gyfer monitro hyfywedd y mudiadau yn drylwyr. Dylech gyfyngu eich ateb i 400 gair.

Ateb: Mae Cymorth i Ddioddefwyr (VS) wedi gweithio'n agos â'n rhwydwaith o ddarparwyr arbenigol am dros 3 blynedd i sicrhau darpariaeth gwasanaeth parhaus. Rydym wedi helpu i wella galluogrwydd a fframweithiau llywodraethu'r mudiadau hyn, ac mae dull cydweithredol yn galluogi ein gwasanaethau a gomisiynir i ganolbwyntio ar ddarparu, yn hytrach nag ar fiwrocratiaeth. Mae ein gwasanaethau'n elwa ar gysylltiadau gwaith proffesiynol rhagorol â'n holl bartneriaid, gan leihau perygl o ymgysylltu isel neu berfformiad gwael, fel y disgrifiwyd yn yr enghraifft amgaeedig gan wasanaethau a gomisiynir.

Fodd bynnag, pe byddai problemau'n codi, mae ein profiad o reoli gwasanaethau yn ein galluogi i ganfod problemau'n gyflym, i ymyrryd ac, os bydd angen, i benodi darparwr arall. Yn y Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau cyfredol rydym wedi ymyrryd yn dilyn archwiliad o ddiogelwch data, gan helpu nifer o ddarparwyr gwasanaeth a gomisiynwyd i gyrraedd y safonau angenrheidiol. Gweler y 3 enghraifft arall a amgaewyd.

Er bod y gwasanaethau a gomisiynwyd gennym yn darparu cymorth unigol ac yn gweithredu mewn gwahanol leoliadau, mae gan lawer y gallu i ddarparu gwaith sy'n ehangach o ran ei gwmpas. Oherwydd hyn, mewn argyfwng gallai nifer ddarparu cymorth tebyg i ddefnyddwyr gwasanaeth, i sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau nes y gellid datrys y mater.

5.3 (Pwysoliad: 9%) Eglurwch y broses Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb y byddwch yn ei mabwysiadu ar draws y strwythur cyflenwi i sicrhau gwasanaeth cydradd, yn seiliedig ar angen, ar draws gwahanol grwpiau o ddioddefwyr. Dylech gyfyngu eich ateb i 400 gair.

**Ateb:** Rydym yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan Ddyletswydd Cyfrifoldeb y sector cyhoeddus a gallwn gadarnhau bod ein gwasanaethau yn gallu ac y byddant yn cydymffurfio â hi.

Mae timau cyfredol y Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau yn cynnal asesiadau o angen manwl ym

mhob achos, gan gynnwys materion cydraddoldeb penodol, ac yna'n darparu cymorth wedi'i deilwra'n benodol yn seiliedig ar yr asesiadau hyn.

Yn y dyfodol byddwn yn parhau i deilwra pob gwasanaeth er mwyn diwallu anghenion unigol yr unigolion a gynorthwyir gennym, gan ddefnyddio fframwaith cenedlaethol VS ac Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) i sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn parhau'n elfen ganolog o'n gweithrediadau. Mewn achosion lle na allwn ateb cais ar unwaith byddwn yn chwilio am opsiwn amgen: er enghraifft, os bydd pwysau ar adnoddau'n golygu na allwn aseinio Gweithiwr Achos o'r rhyw y gofynnwyd amdano, gallwn sicrhau y bydd gwirfoddolwr o'r rhyw hwnnw hefyd yn bresennol, fel na fydd dim un defnyddiwr gwasanaeth ar ei ben ei hun â rhywun o'r rhyw arall os na fyddant yn teimlo'n gyfforddus.

5.4 (Pwysoliad: 9%) Rhowch fanylion am eich cynllun i ddelio â chynnydd sydyn yn y galw i sicrhau bod gwasanaeth cyson yn cael ei ddarparu. Dylech gyfyngu eich ateb i 220 gair.

**Ateb:** Bydd Cymorth i Ddefnyddwyr (VS) yn sicrhau cydnerthedd y Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau drwy adeiladu model cyflenwi cryf a all wrthsefyll cynnydd sydyn yn y galw, gan addasu i ddiwallu anghenion unigol.

Yn ogystal â manteisio ar fframwaith cenedlaethol cadarn VS – gan gynnwys strwythur TG, prosesau busnes a hyfforddiant, byddwn hefyd yn defnyddio cronfa o wirfoddolwyr i ategu'r gwasanaeth. Hefyd, byddwn yn adolygu tueddiadau'n rheolaidd ac yn cynyddu nifer y gwirfoddolwyr mewn ardaloedd risg uchel.

5.5 (Pwysoliad: 20% ) Rhowch fanylion am y cysylltiadau cyfredol, a’r cysylltiadau y byddwch yn eu datblygu, i sicrhau ffynonellau cymorth eraill ar gyfer dioddefwyr i helpu eu hadferiad tymor hir.

**Ateb:**

## 6. Rheoli Pontio

6.1 (Pwysoliad: 53%. Rhwystr os yn llai na 'derbyniol') Amgaewch gynllun prosiect manwl sy’n dangos sut y byddwch yn paratoi ar gyfer lansio i sicrhau bod y gwasanaethau gofynnol yn cael eu cyflenwi’n llwyddiannus o’r diwrnod cyntaf. Dangoswch gamau a cherrig milltir allweddol yn ogystal â’r gweithgarwch y bydd ei angen i gyrraedd y rhain. Dylech gynnwys, er enghraifft, amserlenni ar gyfer cliriadau diogelwch / recriwtio / hyfforddi, trefniadau partneriaethau / isgontractwyr, gweithredu systemau TG, cyfathrebu â rhanddeiliaid allweddol ac, os yn berthnasol, ystyriaethau TUPE.

Dylech gadarnhau bod gennych chi gynllun prosiect manwl.

**Ateb:** Oes

6.2 (Pwysoliad: 14%) Rhowch fanylion am y strwythur a’r systemau rheoli prosiect yn ystod y cyfnod lansio a phontio gyda manylion am brofiad y staff allweddol. Amgaewch organogram sy’n dangos staff y tîm lansio / pontio arfaethedig a’u swyddi. Dylech gyfyngu eich ateb i 300 yn ychwanegol at yr organogram.

**Ateb:** Fel deiliaid y cytundeb, bydd ein lansiad yn ddigon syml. Gyda gwasanaethau ar waith eisoes, byddwn yn sicrhau nad amherir ar ddefnyddwyr gwasanaeth, a bydd eu profiad yn cael ei gyfoethogi gan y datblygiadau arloesol y byddwn yn eu cyflwyno. Amgaeir yr organogram pontio.

Mae Cymorth i Ddioddefwyr (VS) yn deall bod lansio a phontio yn gritigol a gall gael effaith fawr ar lwyddiant. Mae gennym brofiad o gyflawni pontio di-dor yn achos gwasanaethau cymhleth, gan gynnwys integreiddio 77 o elusennau ffederal yn un elusen yn 2007/8. Roedd cyfarwyddwr y Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau cyfredol yn allweddol yn y trawsnewid hwn, a bydd VS yn defnyddio’r prosesau hyn sydd wedi profi eu gwerth i sicrhau na fydd dim amhariad wrth i ni weithredu cynlluniau i arloesi ac i wella’r gwasanaeth ymhellach.

Byddwn yn defnyddio timau a phrosesau Swyddogaethau Busnes VS i gynorthwyo’r broses pontio. Mae VS wedi sefydlu methodoleg rheoli prosiectau sy’n seiliedig ar y fframwaith PRINCE 2. Mae hyn yn golygu defnyddio dull cyson, sefydliad cyfan y gellir ei gymhwyso a’i feintioli ar gyfer pob prosiect a reolir gennym. Mae ein methodoleg yn ategu’r dull strwythuredig a ddefnyddir gennym i sicrhau ein bod yn rheoli newid yn effeithiol.

Bydd y pontio’n cael ei arwain gan:

6.3 (Pwysoliad: 10%) Rhowch fanylion am unrhyw gymorth y bydd ei angen arnoch gan yr Awdurdod yn ystod y cyfnodau lansio a phontio

**Ateb:** Drwy barhau â pherthynas sefydledig a phositif Cymorth i Ddioddefwyr (VS) â’r Awdurdod, byddem yn disgwyl mai bychan iawn fyddai effaith ein mesurau arloesol yn ystod y cyfnod pontio. Gan fod y Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau wedi bod yn weithredol am 3 blynedd, rydym yn hyderus bod gennym y gallu a’r galluogrwydd i roi ein mesurau arloesol ar waith heb effeithio ar y gwasanaeth presennol a heb osod baich ar yr Awdurdod. Byddwn yn parhau i weithio’n agos â’r Awdurdod i drafod unrhyw broblemau a all godi, a hynny mewn da bryd.

Byddwn yn gofyn am amser gyda’r Awdurdod i drafod mesurau canlyniadau a threfniadau adrodd, gan gynnwys unrhyw newidiadau i’r Holiadur Gwaith ac Addasiad Cymdeithasol. Rydym yn awyddus i gytuno ar unrhyw newidiadau i fesurau yn fuan ar ôl dyfarnu’r grant, gan y bydd hyn yn caniatáu amser i addasu unrhyw systemau TG a phrosesau cipio data. Byddwn yn gweithio â’r Awdurdod i wneud trefniadau ar gyfer cyfarfod adolygu yn ystod y cyfnod pontio.

Byddwn yn gofyn i'r Awdurdod am eglurder ar y modd y bydd y Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau yn rhyngweithio â sefydliadau sy'n cynorthwyo teuluoedd mewn profedigaeth o ganlyniad i laddiadau a ddigwyddodd cyn 2010 ac unrhyw gymorth a gomisiynir yn y dyfodol gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu i helpu'r grŵp hwn o ddefnyddwyr gwasanaeth.

Byddwn yn sicrhau nad yw'r broses newid yn cael dim effaith ar y defnyddwyr gwasanaeth presennol nac ar rai sy'n dechrau defnyddio'r gwasanaeth yn ystod y cyfnod pontio. Byddwn yn hyfforddi Gweithwyr Achos i hysbysu defnyddwyr gwasanaeth cyfredol o'r gwasanaethau newydd a fydd ar gael o fis Hydref 2014 ymlaen; a phan yn bosibl byddwn yn eu cyflwyno hwy'n gynnar drwy ddull graddol – gan gynnwys cymorth i reoli dyledion.

Bydd Cyfarwyddwr y Gwasanaeth a'r tîm rheoli yn gyfrifol am sicrhau bod morâl uchel y staff, gwirfoddolwyr a'r gwasanaethau a gomisiynir yn cael ei gynnal, ac am arwain y newid mewn diwylliant i ymgorffori datblygiadau a thechnolegau newydd. Byddwn yn cyflawni'r trawsnewid hwn yn llwyddiannus drwy ddarparu gwybodaeth sensitif a phositif a chymorth parhaus.

6.4 (Pwysoliad 23%) Sut fyddwch chi'n sicrhau bod unrhyw ddioddefwyr sy'n cael cymorth ar adeg y lansiad yn cael eu trosglwyddo gyda chyn lleied o amhariad a thrallod â phosibl? Rydym yn hyderus na fydd defnyddwyr gwasanaeth yn profi dim amhariad yn ystod y cyfnod lansio. Mae Cymorth i Ddioddefwyr yn credu'n angerddol mewn sicrhau bod anghenion dioddefwyr yn ganolog i'r System Cyfiawnder Troseddol, ac felly byddwn yn gwneud popeth posibl i sicrhau na fydd unigolion a theuluoedd mewn profedigaeth o ganlyniad i laddiad yn profi unrhyw doriad yn y cymorth a ddarperir iddynt. Fel y darparwyr presennol rydym yn falch o fod yn y sefyllfa gryfaf i gynnig hyn; fodd bynnag, rydym yr un mor ymwybodol pe bai'r darparwr yn newid, y gallai hynny amharu ar ddefnyddwyr gwasanaeth yn sgil newidiadau yn y ddarpariaeth, ac efallai y byddai angen i ni helpu i roi sylw i hynny.

**Ateb:** I sicrhau na fydd dim amhariad yn y gwasanaeth, byddwn yn defnyddio ein safle fel y gweithredwyr cyfredol i roi ein cynllun pontio ar waith ar unwaith yn dilyn dyfarnu'r grant; byddwn yn cyflwyno newidiadau'n raddol, fel na fydd yn rhaid i'r staff a gwirfoddolwyr sy'n darparu gwasanaethau rheng flaen orfod ymdopi â newidiadau gweithredol sydyn yn eu cyfrifoldebau craidd. Rydym wedi llwyddo i gyflawni hyn yn llwyddiannus wrth reoli newid yn ystod oes y grant presennol. Bydd y timau hyn yn cael eu helpu gan dîm rheoli gwasanaeth a gwasanaethau corfforaethol ehangach VS i hwyluso'r pontio ymhellach ac i glustnodi amser ar gyfer cynorthwyo dioddefwyr.

Bydd ein cysylltiadau sefydledig â'r gwasanaethau cyfredol sy'n cael eu comisiynu yn sicrhau bod unrhyw gymorth sy'n cael ei ddarparu ar adeg y lansio yn parhau'n ddi-dor. Cyn gynted ag y bydd y targedau canlyniadau a pherfformiad wedi cael eu diffinio gan yr Awdurdod, byddwn yn trefnu is-gontractau gyda'n holl isgontractwyr sy'n adlewyrchu'r mesurau gofynnol. Byddwn yn gweithio â gwasanaethau hen a newydd a gomisiynir i addasu eu trefniadau adrodd er mwyn gwneud y newidiadau hyn; drwy rannu arferion gorau ac arbenigedd gallwn helpu'r sefydliadau yr ydym yn gweithio â hwy i addasu'n gyflym i'r gofynion newydd. Bydd y cymorth hwn yn eu galluogi i barhau i ganolbwyntio ar helpu defnyddwyr gwasanaeth.

Byddwn yn cynorthwyo'r sefydliadau sy'n cyflenwi'r gwasanaeth Cymorth gan Gymheiriaid i recriwtio a hyfforddi'r nifer gofynnol o wirfoddolwyr i sicrhau bod eu gwasanaeth ar gael o fis Hydref 2014. Byddwn yn sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth presennol yn ymwybodol o'r gwasanaeth newydd hwn a'r datblygiadau eraill yn ein gwasanaeth.

Byddwn yn trefnu cyfarfodydd â rhanddeiliaid allweddol e.e. ACPO, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y GIG, cyrff rydym eisoes yn mwynhau perthynas ragorol â hwy.
Bydd rheolaeth fanwl o'r cynllun pontio a natur gadarn y Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau cyfredol yn galluogi VS i sicrhau na fydd dim defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu heffeithio'n andwyol ar y dyddiad lansio.

6.5 (Heb ei bwysoli. Er gwybodaeth yn unig) Gan ystyried eich cyfrifoldebau cyfreithiol, yn eich barn chi a fydd trefniadau TUPE yn cael eu gweithredu yn sgil trosglwyddo'r gwasanaethau hyn? Byddant, ac rydym wedi cadw hyn mewn cof yn ein Bid gan gynnwys ein Hatodlen Gwariant (gweler yr Holiadur 'Proffil Gwariant') Na fyddant, ac rydym wedi cadw hyn mewn cof yn ein Bid gan gynnwys ein Hatodlen Gwariant (gweler yr Holiadur 'Proffil Gwariant ')

**Ateb:** Byddant

## 7. Recriwtio a Hyfforddi

7.1 (Pwysoliad: 100%) Rhowch fanylion am y broses recriwtio a chynefino y byddwch yn ei gweithredu yn achos staff cyflogedig a di-dâl ar ddechrau a thrwy gydol y cytundeb grant gan gynnwys manylion am unrhyw brofion ac archwiliadau diogelwch y byddwch yn eu defnyddio. Dylech gynnwys manylion am sut y byddwch yn sicrhau bod niferoedd digonol o staff wedi cael hyfforddiant digonol a bod staff / gwirfoddolwyr wedi'u fetio ar gael ar adeg y lansio. Dylech hefyd gynnwys amserlenni ar gyfer hyfforddi staff i sicrhau eu bod wedi'u paratoi'n ddigonol ar gyfer eu rolau. Dylech gyfyngu eich ateb i 700 gair.

**Ateb:**

## 8. Cyflenwi'r Gwasanaeth

8.1 (Pwysoliad: 17%) Disgrifiwch y strwythur staffio y byddwch yn ei fabwysiadu (h.y. nifer y Rheolwyr Achos, Rheolwyr Llinell / Goruchwylwyr, Staff Arbenigol wedi'i heitemeiddio ac ati) ac amgaewch organogram. Dangoswch yn eglur ym mha ffordd mae nifer y staff a nodwyd yn gysylltiedig â phob cam o'r ddarpariaeth a (os ydych chi'n bidio fel prif gontractwr neu gonsortiwm) pha sefydliad y byddant yn gweithio iddo. Nodwch y cymwysterau fydd ganddynt pan fo hynny'n berthnasol a'r hyfforddiant parhaus y byddant yn ei gael a sut y byddwch yn adolygu hyn ac yn sicrhau ei fod yn gyfoes. Rhowch fanylion am nifer arfaethedig a. staff parhaol b. staff dros dro. trydydd parti d. staff gwirfoddol ym mhob rôl yn y strwythur arfaethedig y ddarpariaeth ac ym mhle byddant wedi'u lleoli.

**Ateb:** Bydd y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth reng flaen yng ngofal Gweithwyr Achos, a byddant yn asesu anghenion pob defnyddiwr gwasanaeth – gan gynnwys trefnu cymorth gan wasanaeth arbenigol a gomisiynir os yn briodol. Byddant yn rheoli pob cynllun cymorth, yn darparu cymorth wyneb yn wyneb, dros y ffôn, ac yn diweddaru asesiadau o angen. Mae gan bob Gweithiwr Achos brofiad blaenorol mewn meysydd gwasanaeth perthnasol a bydd pob tîm yn cael cymorth Gweithiwr Cymorth. Bydd Gweithwyr cymorth yn cyflawni swyddogaethau gweinyddol o ddydd i ddydd. Bydd y timau wedi'u lleoli mewn canolfannau Cymorth i Ddioddefwyr (VS) neu heddlu ledled Cymru a Lloegr.

Bydd timau'n cael eu cynorthwyo gan gronfa o wirfoddolwyr a all ddarparu cymorth emosiynol ac ymarferol. Yn ogystal â chwblhau hyfforddiant craidd ac arbenigol VS, megis cynorthwyo plant a phobl ifanc, bydd gwirfoddolwyr yn cael hyfforddiant arbenigol mewn cynorthwyo unigolion a theuluoedd mewn profedigaeth o ganlyniad i laddiadau. Bydd gwirfoddolwyr yn adrodd i Reolwyr Cyflenwi Gwasanaeth VS er mwyn helpu i safoni'r cymorth.

Nid ydym yn rhagweld y byddwn yn defnyddio staff dros dro, er y byddwn yn cyflogi pobl ar gontractau tymor penodol pan fydd angen, megis i lenwi yn ystod absenoldeb mamolaeth.

Ar ôl atgyfeirio at wasanaeth a gomisiynwyd, byddwn yn pontio cymorth yn ddi-dor, er y bydd y Gweithiwr Achos Lladdiadau yn cadw cyfrifoldeb am oruchwylio'r achos. Gweler yr organogram cyflenwi gwasanaeth amgaeedig ar gyfer strwythurau staffio gwasanaethau a gomisiynwyd, ac Atodiad 3 am feysydd eu harbenigedd.

Bydd Rheolwr Perfformiad a Sicrhau Ansawdd yn gyfrifol am sicrhau bod adroddiadau allbwn a chanlyniadau yn cael eu cyflwyno'n brydlon gan wasanaethau a gomisiynwyd er mwyn paratoi adroddiad ar gyfer yr Awdurdod. Byddant yn sicrhau bod unrhyw broblemau'n cael eu

huwchgyfeirio’n gyflym at yr uwch reolwyr. Bydd y tîm yn cwrdd yn flynyddol i gael hyfforddiant parhaus a fydd yn para am isafswm o  o ddyddiau.

Bydd y cyfarfodydd hyn yn datblygu sgiliau mewn amrywiaeth eang o faterion y bydd pobl mewn profedigaeth yn eu profi, gan gynnwys

Byddwn hefyd yn darparu hyfforddiant ychwanegol i helpu rhai â phroblemau ymddygiadol o fewn uned deuluol, a datblygiad proffesiynol parhaus ar wasanaethau addysgol statudol.

Bydd gwirfoddolwyr yn mynychu gweithdai rhanbarthol a chyfarfodydd deufisol â Gweithwyr Achos, fel y gallant barhau i ddatblygu eu sgiliau a’u harbenigedd.

Bydd y Rheolwr Gwasanaeth yn gyfrifol am reoli’r gwasanaeth a’r staff o ddydd i ddydd.

Bydd y Tîm yn cael ei oruchwylio gan Gyfarwyddwr y Gwasanaeth.

[Noder: Mae dogfen wybodaeth ychwanegol wedi’i hamgáu]

8.2 (Pwysoliad: 55%. Rhwystr os yn llai na 'derbyniol') Eglurwch sut y byddwch yn sicrhau y bydd y ddarpariaeth yn seiliedig ar yr anghenion a ddisgrifiwyd yn y Ddogfen Ddisgrifiadol, gan gynnwys: sut y byddwch yn canfod anghenion, sut y byddwch yn sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu diwallu pan fyddant yn cael eu diwallu gennych chi neu gan sefydliadau yr ydych chi’n comisiynu gwasanaethau ganddynt; sut y byddwch yn cyfeirio at wasanaethau eraill os bydd yr anghenion a ganfyddir y tu allan i gwmpas y gwasanaeth a ddarperir gennych chi o dan y disgrifiad o’r gwasanaeth. Disgrifiwch sut y byddwch yn mesur effeithiolrwydd y gwasanaethau a darperir neu a gomisiynir gennych, gan gynnwys eich parodrwydd i weithio â’r Awdurdod i gytuno ar fesuriadau perfformiad ac i barhau i’w hadolygu. Dylech gyfyngu eich ateb i 600 gair.

**Ateb:** Bydd y gwasanaeth newydd, a fydd yn seiliedig ar fodel llwyddiannus sydd wedi profi’i hun eisoes yn seiliedig ar 25 o Weithwyr Achos a chronfa o 70 o wirfoddolwyr a fydd yn canfod ac yn ymateb i anghenion cymhleth pobl mewn profedigaeth. Gweler y model gwasanaeth arfaethedig am drosolwg o’r ddarpariaeth.

Canfod Anghenion
Ar ôl cyflwyniad gan y Swyddog Cyswllt Teulu, bydd Gweithwyr Achos yn defnyddio asesiad o angen Cymorth i Ddioddefwyr (VS) i ganfod pa gymorth sydd ei angen.

Diwallu Anghenion
Bydd Gweithwyr Achos a gwirfoddolwyr yn cynnig cymorth emosiynol ac ymarferol ar unwaith i ddefnyddwyr gwasanaeth. Bydd y cymorth hwn ar gael iddynt drwy bob agwedd ar y gwasanaeth – yn bersonol, dros y ffôn ac ar-lein - a bydd Gweithwyr Achos yn diweddaru’n rheolaidd ac yn ymateb i’r asesiad o angen. Bydd ein System Rheoli Achosion (CMS) yn galluogi Defnyddwyr Gwasanaeth i ddiweddaru gwybodaeth mewn amser real, gan sicrhau ymateb cyflym i anghenion wrth iddynt newid.

Gellir atgyfeirio defnyddwyr gwasanaeth ag anghenion mwy cymhleth, sy’n gysylltiedig, er enghraifft, â thrawma seicolegol a materion cyfreithiol neu ariannol, at y gwasanaethau arbenigol a gomisiynir gennym neu at asiantaethau cymorth statudol.

Gall defnyddwyr gwasanaeth sydd angen cymorth wedi’i dargedu a’i integreiddio o ganlyniad i drais domestig a / neu drais rhywiol neu ar sail rhyw, gael gafael ar gymorth priodol drwy weithwyr hyfforddedig IDVA VS a gweithwyr cymorth ISVA.
Pan yn briodol, bydd defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hatgyfeirio at ddarparwyr Cymorth gan Gymheiriaid. Nid yn unig y bydd y cymorth hwn ar gael drwy eu cysylltiad â’r gwasanaeth, gall barhau hefyd ar ôl ‘ymadael’, gan ddiwallu anghenion mwy tymor hir. Bydd y sefydliadau hyn hefyd yn cynnig cysylltiad uniongyrchol yn ôl at dîm VS, fel y bydd modd i ddefnyddwyr gwasanaeth ailymuno â’n rhwydwaith cymorth yn ddidrafferth unwaith eto os bydd angen.

Cyfeirio
Rydym wedi meithrin cysylltiadau ardderchog ag asiantaethau statudol fel Gwasanaethau Cymdeithasol a'r GIG a byddwn yn cyfeirio defnyddwyr gwasanaeth at eu gwasanaethau hwy, e.e. yn achos cam-drin alcohol. Rydym yn edrych sut y gallwn weithio'n well gyda chyfarwyddwr y GIG sy'n gyfrifol am ymgysylltu â'r heddlu a chynllunio troseddu.

Byddwn yn hwyluso mynediad at gyngor cyfreithiol pro-bono

Byddwn yn gweithio ag ysgolion a chyflogwyr i helpu defnyddwyr gwasanaeth i ddychwelyd i'w gwaith neu addysg yn eu hamser eu hunain.

Mesur ein Gwasanaethau

Bydd y Rheolwr Gwasanaeth yn adolygu unrhyw faterion gweithredol, ac yn chwilio am welliant parhaus. Bydd Cyfarwyddwr y Gwasanaeth yn adolygu pob agwedd ar y ddarpariaeth ac yn gyfrifol am ddiwydrwydd dyladwy.

Bydd gweithwyr achos yn mesur effaith gwasanaethau a gomisiynwyd drwy gysylltiadau rheolaidd â defnyddwyr gwasanaeth.

[Noder: Mae dogfen wybodaeth ychwanegol wedi'i hamgáu]

8.3 (Pwysoliad: 6%) Sut fyddwch chi'n darparu cymorth uniongyrchol neu anuniongyrchol i blant o dan 18 oed)?

**Ateb:**

8.4 (Pwysoliad: 22%) Sut fyddwch chi'n sicrhau bod gennych chi system rheoli achosion gadarn sy'n cyrraedd y Lefel Effaith ofynnol yn weithredol ar adeg y lansiad?

**Ateb:**

## 9. Rheoli'r Grant

9.1 (Pwysoliad: 40%) Rhowch fanylion am sut y byddwch chi'n rheoli'r gwasanaethau a ddarperir. Dylech gynnwys y rhyngwynebau rheoli â'r Awdurdod. Rhowch fanylion am strwythur y tîm rheoli (yn unol â'r organogram a roddwyd yn 8.1) a'r llinellau adrodd. Rhowch enwau staff rheoli allweddol a'u cyfrifoldebau a disgrifiwch sut y byddwch yn parhau i adolygu'r strwythur hwn yn ystod cyfnod y grant. Dylech gynnwys manylion am sut y byddwch yn delio â cheisiadau am gymorth y tu allan i oriau swyddfa, am unrhyw fylchau neilltuol mewn adnoddau a'r math o gymorth a gaiff sylw a pha mor gyflym. Dylech gyfyngu eich ateb i 800 gair.

**Ateb:**
Rhyngwyneb â'r Awdurdod
Yn y grant newydd byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad (FCO) a'r MoJ i baratoi adroddiadau ac ymatebion cyflym a phriodol.

Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau fydd y prif bwynt cyswllt rhwng yr Awdurdod a VS, gyda chymorth Rheolwr y Gwasanaeth. O fis Hydref 2014 ymlaen bydd VS yn parhau i fynychu Grŵp Llywio'r Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau yn ôl yr angen, a bydd yn gweithio â'r Awdurdod i benderfynu ar y dull gorau i gynnal adolygiadau rheolaidd. Byddwn yn dylunio ac yn cynhyrchu adroddiadau newydd yn ôl y gofyn.

Adolygiad Strwythurol
Rydym wedi ymrwymo i wella'n barhaus. Byddwn yn adeiladu ar ein hadroddiad blynyddol i gynhyrchu cynllun cyflenwi blynyddol, a fydd yn cynnwys adolygiad llawn o'r tîm yn ogystal â llwyddiannau a heriau'r flwyddyn a aeth heibio. Bydd hyn yn cael ei rannu â'r Awdurdod, a byddwn yn gweithio ag ef i sicrhau bod gwasanaeth rhagorol yn cael ei ddarparu.

9.2 (Pwysoliad: 60% Rhwystr os yn llai na 'derbyniol') Disgrifiwch sut y bydd data'n cael ei goladu a sut y bydd y prosesau y byddwch yn eu rhoi ar waith yn arwain at ffurflenni data prydlon, cywir a chyflawn i'r Awdurdod. Disgrifiwch sut y byddwch yn monitro ac yn adrodd ar allbynnau; a'r canlyniadau a gyflawnir i unigolion sy'n cael cymorth. Hefyd, nodwch sut y byddwch yn monitro ac yn rheoli gwariant ariannol a sut y bydd hyn yn rhoi sylw i wybodaeth rheoli achosion. Dylech gyfyngu eich ateb i 600 gair.

**Ateb:**

10. Effeithlonrwydd

10.1 (Pwysoliad: 100%) Pa gamau fyddwch chi'n eu cymryd i sicrhau eich bod yn parhau i allu cyflenwi o fewn cyfyngiadau'r gyllideb ac i sicrhau bod gorbenion a chostau heblaw cyflenwi cyn ised â phosibl ac yn gwneud y buddsoddiad gorau posibl mewn darpariaeth reng flaen?

**Ateb:**
Bydd unrhyw arbedion effeithlonrwydd a wnawn yn cael eu hail fuddsoddi yn y Gwasanaeth Cymorth yn dilyn Lladdiadau, gan ein galluogi i ddarparu cymorth hyblyg, parhaus ar gyfer y sawl sydd mewn profedigaeth o ganlyniad i laddiad a sicrhau'r gwasanaeth ar gyfer y dyfodol.

11. Proffil Gwariant

11.1 (Pwysoliad: 100%) Cwblhewch yr Atodlen Gwariant yn ATODIAD Atodiad 4, ac yna'i lwytho i fyny. Dylai prisiau fod mewn punnoedd yn unig; ac ni ddylent fod yn fwy na Chyllid y Grant. Bydd yr Awdurdod yn ceisio canfod i ba raddau y bydd gwariant yn cael ei gyfeirio at ddarpariaeth rheng flaen. Gofynnir i chi gadarnhau eich bod wedi llwytho'r atodiad hwn i fyny.

**Ateb:** Do

[Noder: Mae dogfen wybodaeth ychwanegol wedi'i hamgáu]

12. Datganiadau

12.1 (Heb ei bwysoli - derbyniol/annerbyniol) Mae gofyniad ar Ymgeiswyr i gadarnhau eu bod yn derbyn Cytundeb Grant y Weinyddiaeth Cyfiawnder (MoJ) yn ddiamod. Gofynnir i chi gadarnhau eich bod yn derbyn y Cytundeb Grant yn ddiamod.

**Ateb:** Ydym